

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru/ Welsh Parliament
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddFinance@senedd.cymru

4 Gorffennaf 2022

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 24 Mehefin sy'n nodi myfyrdodau'r Pwyllgor ar yr amserlen ar gyfer Cyllidebau Drafft a Therfynol 2023-24. Yn dilyn gwaith craffu'r Pwyllgor ar y Gyllideb Atodol Gyntaf ar 30 Mehefin, roeddwn yn meddwl y gallai fod yn ddefnyddiol nodi fy ymateb i'r llythyr hwn, yn ogystal â rhoi mwy o fanylion i'r Pwyllgor am y cyfraniad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i becyn cymorth milwrol Llywodraeth y DU ar gyfer Wcráin.

Amserlen y Gyllideb

Rwyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am gadarnhad y byddech yn cefnogi penderfyniad i ohirio cyhoeddi ein Cyllideb Ddrafft nes y bydd ein setliad ar gyfer y Gyllideb wedi'i gadarnhau. Ysgrifennodd fy nghydweithiwr yn y Cabinet, y Trefnydd, fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Senedd, at y Pwyllgor Busnes ar 1 Gorffennaf, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 20, i nodi ein bwriad i gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar 13 Rhagfyr ac i gyflwyno Cynnig y Gyllideb Flynyddol ar 28 Chwefror. Fel y gwelwch o'r llythyr yn atodiad A, mae llythyr y Trefnydd yn ceisio darparu gwarantau a fyddai'n lliniaru effaith amserlen wedi'i chwtdogi ar graffu ar y gyllideb yn y Senedd sydd, gobeithio, yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i'r Pwyllgor.

Ymgysylltu

Fel rhan o'n hymgysylltiad parhaus o ran craffu ar gyllidebau yn y dyfodol, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ymgysylltu â Chlerc y Pwyllgor i ymchwilio ymhellach i sut y gallwn ddarparu cyfleoedd ychwanegol i ymgysylltu yn ystod y cyfnod rhwng yr haf a chyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft. Fel rhan o'r ymgysylltu hwn, byddwn yn awyddus i ddysgu mwy am y dystiolaeth a'r syniadau y mae'r Pwyllgor wedi'u cael o'i ymgysylltiad â rhanddeiliaid ar y Gyllideb, i archwilio lle mae blaenoriaethau cyffredin. Fel y trafodwyd eisoes, byddaf hefyd yn trefnu i Brif Economegydd Llywodraeth Cymru friffio'r Pwyllgor ar sut y mae'r amodau economaidd ac ariannol yn effeithio ar gyllid Llywodraeth Cymru.

Adolygiad o Brotocol y Gyllideb

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf yn derbyn pryderon y Pwyllgor ynghylch Protocol y Gyllideb; mae'r ffaith ei fod yn seiliedig ar Ddigwyddiad Cyllidol sylweddol Llywodraeth y DU yn y Gwanwyn yn hytrach na digwyddiad Cyllidol yr Hydref, a'r cymhlethdodau y mae hyn yn eu hachosi pan nad yw'r amseriadau'n cyd-fynd â'i gilydd yn cyflwyno rhai heriau. Er bod hyn yn dangos sut y mae Protocol y Gyllideb yn ymateb i amgylchiadau eithriadol, a pha mor hyblyg ydym wrth ymateb i amgylchiadau a gyflwynir gan Lywodraeth y DU sy'n newid yn barhaus, rwyf yn cydnabod, er hynny, y broblem y mae hyn yn ei hachosi i'r Pwyllgor. Rwyf yn agored i ymchwilio i'r pwynt hwn ymhellach.

Pecyn cymorth milwrol ar gyfer Wcráin

Yn ystod y sesiwn ddoe, bu ichi godi cyhoeddiad Llywodraeth y DU o becyn cymorth milwrol pellach gwerth £1bn ar gyfer Wcráin. Yn ogystal â'm [Datganiad Ysgrifenedig](#), roeddwn i'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor nodi'n fanylach yr amgylchiadau a arweiniodd at gyfraniad Llywodraeth Cymru at y pecyn hwn a'r goblygiadau sy'n deillio o hynny.

Ar 21 Mehefin, dywedodd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys wrthyf fod Trysorlys EM wedi gofyn i holl Adrannau Whitehall ildio 1.5% o'u cyllidebau cyfalaf ar gyfer 2022-23 er mwyn ariannu pecyn cymorth milwrol ar gyfer Wcráin. Gofynnwyd i mi a oedd Llywodraeth Cymru am gyfrannu cyfran Barnett gyfatebol o £30m o gyllid cyfalaf at y diben hwn, ac os nad oedd Llywodraeth Cymru am wneud hyn, fe'm hysbyswyd y byddai gostyngiad cyfatebol yn ein cyllideb gyfalaf yn Amcangyfrifon Atodol y DU.

Gyda'r dewis cyfyngedig hwn, cytunais i gyfrannu cyllid cyfalaf o £30m yng ngoleuni'r amgylchiadau eithriadol ac ymrwymiad cadarn Llywodraeth Cymru i gefnogi pobl Wcráin. Er hynny, yn fy ymateb i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, roeddwn yn glir na ddylai hyn osod cynsail ar gyfer trefniadau ariannu yn y dyfodol. Yn benodol, nid yw Llywodraeth Cymru'n derbyn ei bod yn weithred ddilys yn fformiwla Barnett i leihau cyllidebau Llywodraeth ddatganoledig os bydd adrannau'r DU yn ildio cyllid o ganlyniad i danwariant sydd ganddi neu i ariannu swyddogaethau a gedwir yn ôl gan gynnwys cymorth milwrol ac amddiffyn.

Mae ein cynlluniau gwariant cyhoeddedig ar gyfer 2022-23 yn ymrwymo ein setliad cyfalaf yn llawn ac yn cynnwys benthyca'r uchafswm o £150m. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod Adolygiad o Wariant y DU 2021 wedi lleihau ein cyllideb cyfalaf, fel ei bod yn llai na 2021-22 ym mhob blwyddyn o gyfnod yr Adolygiad o Wariant. Ynghyd â phwysau chwyddiant cynyddol, nid oes gennym danwariant y gallwn gefnogi'r cyfraniad hwn ohono.

Fel rhan o'm hymateb i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, gofynnais fod terfyn benthyca Llywodraeth Cymru'n cael ei godi eleni o leiaf £30m i sicrhau nad oes unrhyw niwed i'n cynlluniau buddsoddi. Nid yw'r cais hwn wedi'i ganiatáu. Felly, bydd yn arwain at benderfyniadau heriol ac mae'n debygol o olygu y bydd angen gohirio neu atal rhywfaint o weithgarwch. Byddaf yn rhoi manylion pellach i'r Pwyllgor am y penderfyniadau hyn maes o law.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes.

Yn gywir



Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government